*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

# Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018, sy'n gosod y targedau allyriadau interim o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Diben Rhan 2 o'r Ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 100% yn is na'r waelodlin.

Mae adran 30 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn gosod targedau allyriadau interim ar gyfer y blynyddoedd 2020, 2030 a 2040. Mae'r targedau hyn yn cael eu mynegi fel canran islaw'r waelodlin.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018. Mae targedau 2030 a 2040 wedi eu cynyddu o "45%" i "63%" ac o "67%" i "89%", yn y drefn honno, yn is na'r waelodlin.

Yn unol ag adran 32(1)(a) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y targedau allyriadau interim yn gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050.

Yn unol ag adran 32 o’r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wrth ddrafftio’r Rheoliadau hyn wedi rhoi sylw i’r ffactorau a restrir yn adran 32(3).

Yn unol ag adran 49 o’r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

## Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *12 Mawrth 2021* |

Yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**) ("y Ddeddf"), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Cyn i'r drafft gael ei osod, roedd Gweinidogion Cymru—

(a) wedi eu bodloni bod pob targed allyriadau interim yn cael ei osod ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050, yn unol ag adran 32(1)(a) o'r Ddeddf,

(b) wedi rhoi sylw i'r materion a restrir yn adran 32(3) o'r Ddeddf, ac

(c) wedi cael cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd(**3**), ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

(**1**) 2016 dccc 3.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yw'r corff cynghori perthnasol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 44(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymell diwygio'r targedau allyriadau interim ar gyfer 2030 a 2040.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 30(1) o'r Ddeddf, ac yn unol ag adran 32(2)(b) o'r Ddeddf, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Mawrth 2021.

### Diwygio'r targedau allyriadau interim

**2.**—(1) Mae rheoliad 2 o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2), yn lle "45%" rhodder "63%".

(3) Ym mharagraff (3), yn lle "67%" rhodder "89%".

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) O.S. 2018/1304 (Cy. 258).